Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, **Canolfan Ddeintyddol Tonyrefail**

5 Mawrth 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i fodloni anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-3809-5
© Hawlfraint y Goron 2015

## Cynnwys


1. Cyflwyniad .... 2
2. Methodoleg .... 2
3. Cyd-destun .... 4
4. Crynodeb .... 5
5. Canfyddiadau .... 6
   - Profiad y Claf .... 6
   - Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru .... 7
   - Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .... 8
   - Ansawdd yr Amgylchedd .... 10
6. Y Camau Nesaf .... 11

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Ddeintyddol Tonyrefail yn 2 Pritchard Street, Tonyrefail, CF39 8PA, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, ar 5 Mawrth 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda y mae practisau'n bodloni'r safonau yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.[1]

Mae AGIC yn deall bod Canolfan Ddeintyddol Tonyrefail yn bractis cymysg yn cynnig gwasanaethau deintyddol preifat a'r GIG. Yn hyn o beth, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

[1] Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Gwneud%20yn%20Dda%2C%20Gwneud%20yn%20Well%20%E2%80%93%20Safonau%20ar%20gyfer%20Gwasanaethau%20Iechyd%20Cymru%20%28Ebrill%202010%29.pdf

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a’r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, darperir trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd manylion canfyddiadau o'r math hwn, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o’r modd y gweithredir safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Canolfan Ddeintyddol Tonyrefail yn darparu gwasanaethau i gleifion yn Nhonyrefail. Mae’r practis yn ffurfio rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adnabyddir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys un deintydd, un derbynnydd/cynorthwyydd practis, un nyrs ddeintyddol, a rheolwr practis (sydd hefyd yn rheoli practis deintyddol IDH arall yng Nghwm Taf).

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Triniaethau diagnostig a sgrinio
- Archwiliadau iechyd y geg
- Triniaeth ar gyfer clefydau
- Deintyddiaeth frys
- Deintyddiaeth plant
- Deintyddiaeth breifat

## 4. Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag arolygiad dilynol a gwblhawyd gan AGIC ar 5 Mawrth 2015 yng Nghanolfan Ddeintyddol Tonyrefail i wirio bod meysydd i'w gwella a nodwyd yn arolygiad blaenorol AGIC (11 Tachwedd 2014) wedi cael eu cwblhau. Roedd hyn yn unol â safonau gofal hanfodol y GIG yn y ddogfen *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well*:*Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.

Roedd systemau wedi eu gwella ar waith i leihau perygl a lledaeniad heintiau. Gwelsom hefyd fod gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r trefniadau ar gyfer glanhau a sterileiddio offer sydd wedi cael ei ddefnyddio ac offer deintyddol.

Roedd y practis wedi cael ei ailwampio'n sylweddol ers ein harolygiad gwreiddiol ym mis Tachwedd. Roedd cynllun y ddeintyddfa wedi cael ei thrawsnewid yn llwyr. Roedd dadheintio, er yn dal i ddigwydd o fewn yr ystafell driniaeth, yn llifo'n glir o'r ardal offer budr i'r ardal offer glân. Yn ogystal, roedd y ddeintyddfa'n edrych yn ymarferol a hylan yn gyffredinol.

Rhoddwyd tystiolaeth i AGIC o systemau addas ar gyfer mesur safonau ansawdd a diogelwch hanfodol sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth o ofal a thriniaeth ddeintyddol i gleifion.

Gwelsom fod staff wedi derbyn arfarniad blynyddol i helpu i sicrhau bod y tîm deintyddol yn parhau yn gymwys a hyderus yn eu gwaith.

Nid oedd proses gwyno cleifion y GIG a chleifion preifat yn arddangos yr amserlen gywir ar gyfer cydnabod neu ddatrys cwynion fel sy'n ofynnol. Mae'r darparwr gwasanaeth wedi cytuno i fynd i'r afael â'r mater hwn yn brydlon yn unol â safonau'r GIG a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Mae ailwampio ac ailaddurno pob ardal yn adeilad y practis wedi arwain at welliant sylweddol i gynllun, glendid a golwg amgylchedd cyffredinol y practis er budd cleifion a staff.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

Nid oedd yr agwedd hon ar y gwasanaeth yn cael ei harolygu yn ystod yr arolygiad dilynol hwn gan nad oedd angen unrhyw welliannau yn yr arolygiad AGIC cyntaf a gwblhawyd ar 11 Tachwedd 2014 mewn perthynas â phrofiad y claf.

## *Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*

**Roedd systemau gwell ar waith i leihau perygl a lledaeniad heintiau. Gwelsom welliannau hefyd i'r trefniadau ar waith ar gyfer glanhau a sterileiddio offer oedd wedi cael eu defnyddio ac offer deintyddol.**

**Roedd y practis wedi cael ei ailwampio'n sylweddol ers ein harolygiad gwreiddiol ym mis Tachwedd 2014. Roedd cynllun y ddeintyddfa wedi cael ei thrawsnewid yn llwyr. Roedd dadheintio, er yn dal i ddigwydd o fewn y ddeintyddfa, yn llifo'n glir o'r ardal offer budr i'r ardal offer glân.Yn ogystal, roedd y ddeintyddfa'n edrych yn ymarferol a hylan yn gyffredinol.**

Yn dilyn ein harolygiad ar 11 Tachwedd 2014, roedd yn ofynnol i ddarparwr y gwasanaeth wella'r trefniadau ar waith ynghylch glanhau, gwahanu a diheintio offer deintyddol yn y ganolfan ddeintyddol.

Cadarnhaodd ein harsylwadau ar ddiwrnod yr arolygiad fod systemau gwell ar waith i leihau perygl a lledaeniad haint. Gwnaethom gynnal trafodaethau penodol gyda'r tîm deintyddol ynghylch y trefniadau diwygiedig ar waith ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol, a gwelsom fod ailwampio'r ddeintyddfa wedi eu galluogi i wahanu offer glân oddi wrth offer wedi ei ddefnyddio/budr yn rhwydd. Yn ogystal, roedd llif yr offer deintyddol (o'r budr i'r glân) yn addas ac yn glir; roedd sinciau penodol ar gyfer golchi offer ac ar gyfer golchi dwylo. O ganlyniad, roeddem yn fodlon bod cleifion yn cael eu hamddiffyn rhag y perygl o groes-heintio gymaint â phosibl.

Cawsom sicrwydd ar lafar hefyd fod glanhau a sterileiddio'r holl offer deintyddol yn digwydd yn yr ystafell driniaeth ar adegau pan nad oedd cleifion yn bresennol yn yr ystafell, er mwyn sicrhau eu diogelwch.

Gwelsom fod yr ystafell driniaeth yn llai anniben; roedd cypyrddau ychwanegol wedi cael eu gosod yn yr ardal i storio offer deintyddol oedd yn cael ei ddefnyddio o ddydd i ddydd.

Nid oedd gan y cleifion a staff y gwnaethom siarad â nhw unrhyw bryderon ynghylch glendid y ddeintyddfa. Nododd un claf ei gymeradwyaeth i'r gwelliannau oedd wedi cael eu gwneud i amgylchedd y practis yn ddiweddar. Amlygodd sgyrsiau gyda'r tîm deintyddol hefyd yr ymdrechion a wnaed ganddo i gynnal triniaeth cleifion tra oedd y gwaith ailwampio'n digwydd

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Rhoddwyd tystiolaeth i AGIC o systemau addas ar gyfer mesur safonau ansawdd a diogelwch hanfodol sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth o ofal a thriniaeth ddeintyddol i gleifion.**

**Gwelsom fod staff wedi derbyn arfarniad blynyddol i helpu i sicrhau bod y tîm deintyddol yn parhau yn gymwys a hyderus yn eu gwaith.**

**Nid oedd proses gwyno cleifion y GIG a chleifion preifat yn arddangos yr amserlen gywir ar gyfer cydnabod neu ddatrys cwynion fel sy'n ofynnol. Mae'r darparwr gwasanaeth wedi cytuno i fynd i'r afael â'r mater hwn yn brydlon yn unol â safonau'r GIG a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.**

Yn dilyn arolygiad blaenorol AGIC, roedd yn ofynnol i ddarparwr y gwasanaeth deintyddol roi disgrifiad llawn i AGIC o'r trefniadau monitro a sicrhau ansawdd/llywodraethu clinigol parhaus sydd ar waith yn y ganolfan ddeintyddol.

Ers yr amser hwnnw, rydym wedi derbyn tystiolaeth o'r systemau ar waith ar gyfer mesur safonau ansawdd a diogelwch hanfodol sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth o ofal a thriniaeth ddeintyddol i gleifion yng Nghanolfan Ddeintyddol Tonyrefail. Mae gwiriadau ac archwiliadau wedi cael eu cynnal mewn perthynas â rhagnodi gwrthfiotig, atal a rheoli heintiau, a chadw cofnodion. Yn ogystal, mae'r practis yn cynnal gwiriadau cydymffurfio blynyddol mewnol mewn perthynas â gweithrediad cyffredinol y gwasanaeth, ac mae'r rhain yn cynnwys materion iechyd a diogelwch.

Gwnaethom nodi hefyd bod camau adfer wedi eu cymryd ar adegau pan ymgymerwyd ag archwiliadau cydymffurfio mewnol ac mewn ymateb i ymarfer Hunanasesu Sicrhau Ansawdd blynyddol y GIG sy'n cael ei oruchwylio gan y bwrdd iechyd.

Er bod y gwelliannau uchod yn nodedig, atgoffir y darparwr gwasanaeth deintyddol o bwysigrwydd sicrhau bod cynnydd yn y maes hwn yn cael ei gynnal fel y gall y practis fonitro cydymffurfiaeth â rheoliadau a safonau perthnasol yn effeithiol a rhagweithiol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant pellach yn y cyswllt hwn ar adeg yr arolygiad nesaf.

Yn ystod yr arolygiad a gwblhaodd AGIC ar 11 Tachwedd 2014, gwelsom nad oedd staff wedi derbyn arfarniad blynyddol. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom enghraifft o ffurflen arfarnu oedd wedi ei chwblhau yn ddiweddar gyda nyrs ddeintyddol. Roedd y drafodaeth un i un ffurfiol gyda rheolwr y practis yn amlwg wedi arwain at amlygu hyfforddiant oedd o ddiddordeb i'r aelod o staff yn ogystal â rhoi cyfle iddynt rannu eu syniadau a lleisio unrhyw bryderon am y gwasanaeth. Datgelodd sgwrs gyda rheolwr y practis y byddai arfarniadau o'r fath yn digwydd gyda phob aelod o'r tîm bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn hyderus ac yn gymwys wrth ddarparu gofal a thriniaeth i gleifion.

Yn dilyn yr arolygiad blaenorol, roedd darparwr y gwasanaeth deintyddol wedi dangos poster mwy amlwg yn ymwneud â chwynion y GIG yn nerbynfa'r practis. Fodd bynnag, nid oedd y poster yn cynnwys yr wybodaeth gywir am y cyfnodau amser ar gyfer cydnabod a datrys cwynion yn unol â threfniadau ‘Gweithio i Wella'. Gwelsom hefyd nad oedd poster yn cael ei arddangos ynghylch y trefniadau cwynion gwahanol ar gyfer cleifion preifat. Trafodwyd y materion hyn gyda rheolwr y practis, a fynegodd ei bod yn fodlon rhoi sylw i'r materion hyn cyn gynted â phosibl. Cytunodd hefyd i hysbysu AGIC pan fydd hyn wedi ei wneud.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Mae ailwampio ac ailaddurno pob ardal yn adeilad y practis wedi arwain at welliant sylweddol i gynllun, glendid a golwg amgylchedd cyffredinol y practis er budd cleifion a staff.**

Yn dilyn ein harolygiad blaenorol, roedd yn ofynnol i ddarparwr y gwasanaeth deintyddol roi gwybodaeth fanwl i AGIC am y cynllun ailwampio arfaethedig ar gyfer y ganolfan ddeintyddol. Roedd hyn er mwyn dangos cydymffurfiad â Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Derbyniodd AGIC gynllun ysgrifenedig drafft ar gyfer gwaith ailwampio yr un ystafell driniaeth yn yr adeilad. Dangosodd ein harsylwadau ar ddiwrnod yr arolygiad dilynol hwn fod gwelliannau sylweddol oedd wedi eu gwneud i gynllun ac ymarferoldeb yr ystafell driniaeth honno er budd cleifion a staff.

Cadarnhaodd taith o'r adeilad fod y darparwr gwasanaeth bron â gorffen yr ailwampio a'r ailaddurno ym mhob ardal yn adeilad y practis, ac roedd hyn wedi arwain at welliant sylweddol i lendid a golwg amgylchedd cyffredinol y practis. Roedd y gegin wedi ei thrawsnewid yn ardal storio ymarferol, ac roedd ystafell neilltuedig wedi cael ei chreu ger yr ardal hon at ddibenion datblygu pelydrau-X.

Roedd rhywfaint o waith adfer mân angen ei wneud yn y gegin a'r toiled ar y llawr daear, ac roedd angen gorffen yr ystafell ar y llawr cyntaf oedd yn mynd i gael ei defnyddio fel ail ystafell driniaeth. Cadarnhaodd sgwrs gyda rheolwr y practis fod dyddiadau wedi'u pennu i orffen y gwaith hwnnw.

Roedd gwelliannau amlwg yn ardal y dderbynfa. Roedd yr annibendod wedi cael ei glirio a nododd cleifion bod y lle yn ymddangos yn fwy 'croesawgar'.

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, nid oes angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella pellach.